



Cymru Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Safonau Cyfathrebu Cymru Gyfan rhwng Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol a Gofal Eilaidd



Safonau Cyfathrebu Cymru Gyfan rhwng Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol a Gofal Eilaidd

- Adran 1 – Safonau
- Adran 2 – Nodiadau esboniadol
- Adran 3 – Cyfeiriadau

Adran 1 – Safonau

Safonau cyfathrebu, atgyfeirio a dirprwyo	
1	Dylai llythyrau a anfonir ar ôl ymgynghori â chlaf allanol gael eu cyfeirio at y meddyg teulu neu'r meddyg ymgynghorol sy'n ei atgyfeirio. Os cânt eu hanfon at y meddyg ymgynghorol sy'n atgyfeirio'r claf, dylid anfon copi at ei feddyg teulu cofrestredig.
2	Y meddyg sy'n gofyn (requesting) sy'n gyfrifol o hyd am ganlyniadau'r ymchwiliad.
3	Y meddyg sy'n gofyn sy'n gyfrifol am drefnu i ymchwiliad gael ei gynnal.
4	Dylai'r meddyg teulu sy'n atgyfeirio gael gwybod bob tro pan fydd y flaenoriaeth a roddir i atgyfeiriad yn newid o'r hyn a nodir yn yr atgyfeiriad. Dylai atgyfeiriad y meddyg teulu gynnwys yr holl wybodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar y flaenoriaeth i'w rhoi i'r atgyfeiriad.
5	Cyfrifoldeb staff yr ysbyty yw atgyfeirio cleifion ymlaen pan fydd y cyflwr yn uniongyrchol gysylltiedig ag atgyfeiriad cychwynnol y meddyg teulu.
6	Ni ddylid cynghori cleifion sy'n cysylltu â staff yr ysbyty er mwyn ceisio cael apwyntiadau'n gynt i weld eu meddyg teulu bob tro.
7	Dylai unrhyw feddyg/nyrs arbenigol sy'n atgyfeirio claf i ymgynghori ag arbenigwr arall sicrhau bod y claf yn deall y rhesymau dros yr atgyfeiriad.
8	Dylid ymdrin ag unrhyw ohebiaeth rhwng meddygon ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn brydlon.
9	Ni ddylid gofyn i feddygon teulu ragnodi meddyginiaeth o dan drefniadau rhannu gofal nes bod y clinigwr sy'n gofyn wedi cael caniatâd ffurfiol.
10	Cyfrifoldeb y clinigwr sy'n cynghori'r claf i beidio â gweithio yw rhoi tystysgrifau Med3, a dylai'r tystysgrifau a roddir bara am gyfnod digonol i gwmpasu absenoldeb disgwyliedig o'r gwaith, yn amodol ar ganllawiau ar roi tystysgrifau.
11	Pan na fydd cleifion yn mynd i apwyntiadau cleifion allanol heb roi rhybudd, cânt eu rhyddhau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli llwybrau. Dylid rhoi gwybod i'r meddyg teulu a'r claf ei fod wedi cael ei ryddhau.
12	Dylid cynnig copi o lythyron cleifion allanol ac atgyfeirio i gleifion. Gellir anfon llythyrau electronig lle y bo'n briodol

Adran 2 – Nodiadau esboniadol

1. Safon 1

Mae'r safon hon yn deillio o ymchwiliad Robert Powell (gweler isod), ond mae'n cydnabod nad yw'n bosibl ym mhob achos.

O bryd i'w gilydd, ni fydd yn bosibl cyfeirio gohebiaeth at feddyg teulu penodol, e.e. pan fydd locwm yn atgyfeirio, ac yn yr achos hwn, mae ymchwiliad Robert Powell yn nodi bod yn rhaid i bractisau roi proses ar waith i reoli'r sefyllfa'n ddiogel. Mae'r safon fel y'i dynodir yma hefyd yn golygu, os mai meddyg mewn ysbyty arall sy'n atgyfeirio claf allanol, y dylai'r llythyr fynd yn ôl i'r meddyg ymgynghorol sy'n atgyfeirio, ond dylid anfon copi at y meddyg teulu cofrestredig er cyflawnrwydd.

Enghraifft 1

Mae Dr A yn atgyfeirio claf at yr adran cleifion allanol, a Meddyg Ymgynghorol B yn ei weld; mae B yn ymateb drwy lythyr. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio'r llythyr at y meddyg teulu cofrestredig, sy'n gorfod edrych ar gofnod y claf ar ôl derbyn yr ohebiaeth i weld pa feddyg teulu y mae angen anfon y llythyr ymlaen ato. Gall hyn arwain at oedi wrth drin y claf. Felly, dylid osgoi hyn.

2. Safon 2

Enghraifft 2:

Mae dyn 56 oed yn cael ei atgyfeirio gan y meddyg teulu at y gwasanaeth gastroenteroleg i gleifion allanol er mwyn cynnal profion gweithrediad annormal yr afu. Fel rhan o broses sgrinio'r afu, mae proffiliau glwcos yn y gwaed a lipid y claf yn cael eu gwirio am ffactorau risg sy'n gysylltiedig â Chlefyd Brasterog yr Afu nad yw'n gysylltiedig ag Alcohol (NAFLD). Gwelir bod gan y claf lefel uchel o siwgr yn ei waed a thriglyseridau. Cyfrifoldeb y meddyg sy'n gofyn yw edrych ar ganlyniadau'r profion a gweithredu arnynt. Yn yr achos hwn, byddai gweithredu ar ganlyniadau'r profion wedyn yn cynnwys rhoi gwybod i'r claf a'r meddyg teulu a gofyn i'r meddyg teulu weld y claf yng nghlinig diabetes y practis.

Yr egwyddor yw mai'r meddyg sy'n gofyn sy'n gyfrifol am adolygu a gweithredu ar ganlyniadau'r profion, ond gall gweithredu arnynt gynnwys atgyfeirio'r claf ymlaen neu yn ôl at feddyg teulu. Fodd bynnag, nid yw'n briodol ffacsio canlyniadau ymchwiliadau ysbyty at y meddyg teulu neu fel arall os nad yw'r meddyg sy'n derbyn y canlyniadau wedi cytuno ymlaen llaw y bydd yn cysylltu â'r claf ac yn gweithredu ar y canlyniadau.

3. Safon 3

Enghraifft 3:

Mae dyn 72 oed yn cael ei weld yn ei bractis meddyg teulu yn cwyno am ddysffagia sy'n gwaethygu a'i fod yn colli pwysau. Mae hanes meddygol arall y claf yn brin, ac nid yw'n ymweld â'r practis yn aml. Dylai'r meddyg teulu ei atgyfeirio at yr uned endosgopi i gael endosgopi mynediad agored drwy'r llwybr Brys ag Amheuaeth o Ganser; ni fyddai'n briodol i'r meddyg teulu ei atgyfeirio at yr adran gastroenteroleg gan ddweud 'Byddwn yn ddiolchgar pe gallech drefnu endosgopi ar gyfer y dyn 72 oed hwn ...'

Bydd y ffordd y caiff y safon hon ei chymhwyso yn amrywio yn ôl gallu'r meddyg teulu i wneud atgyfeiriad mynediad uniongyrchol.

Enghraifft 4:

Mae dyn 58 oed yn y dderbynfa feddygol aciwt ar ôl mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys gyda gwaedu rhesrol sydd wedi digwydd sawl gwaith dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Nid yw'r gwaedu'n ddifrifol ar y pryd ac nid oes angen derbyn y claf i'r ysbyty fel achos brys, felly mae'n cael ei ryddhau gan y tîm llawfeddygol. Y cynllun yw bod angen i'r claf gael sigmoidosgopi hyblyg fel claf allanol; cyfrifoldeb y tîm llawfeddygol yw trefnu'r sigmoidosgopi hyblyg. Ni fyddai'n briodol gofyn i'r claf weld ei feddyg teulu i drefnu'r prawf.

Fodd bynnag, pe byddai'r sefyllfa ychydig yn wahanol a bod y claf ond wedi dioddef gwaedu rhesrol un tro wrth straenio, a bod y meddyg yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn fodlon mai digwyddiad unigol oedd hwn yn gysylltiedig â straenio, a bod yr archwiliad rhesrol yn normal, gall y tîm gynghori'r claf i ymgynghori â'i feddyg teulu os bydd y gwaedu'n digwydd eto er mwyn ei atgyfeirio'n uniongyrchol at yr uned endosgopi i gael sigmoidosgopi hyblyg. Yn yr achos hwn, rhaid rhoi gwybod i'r meddyg teulu bod y claf wedi cael y cyngor hwn.

4. Safon 4

Dim ond ar sail y wybodaeth a roddir yn y llythyr atgyfeirio y gellir asesu'r flaenoriaeth i'w rhoi i atgyfeiriad, ac mewn llawer o achosion, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Felly, rhaid nodi pam mae atgyfeiriad yn un brys neu'n Frys ag Amheuaeth o Ganser yn y llythyr atgyfeirio. I gael rhagor o arweiniad ar y wybodaeth y mae disgwyl ei chynnwys mewn llythyr atgyfeirio, gweler canllawiau 2007 y BMA a chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a ddyfynnir isod. Os bydd amheuaeth o hyd ynghylch y flaenoriaeth briodol i'w rhoi, dylid gofyn i'r sawl sy'n atgyfeirio am ragor o wybodaeth. Dylid rhoi gwybod am unrhyw newid i'r flaenoriaeth a roddir i'r atgyfeiriad yn awtomatig drwy'r porth atgyfeirio, neu dylai llythyr safonol sy'n nodi bod y flaenoriaeth a roddir i'r atgyfeiriad wedi newid gael ei anfon at y meddyg teulu sy'n atgyfeirio.

5. Safon 5

Ailystyried enghraifft 2

Os caiff yr un dyn 56 oed ei atgyfeirio at glinig yr afu ac, fel rhan o'r archwiliad diagnostig, gwelwyd bod ganddo sawl carreg fustl a llid coden y bustl gyda golwg sy'n awgrymu ei fod wedi pasio carreg yn ddiweddar, yna cyfrifoldeb y gastroenterolegydd ymgynghorol sy'n gofyn fyddai ei atgyfeirio ymlaen at y tîm llawfeddygol.

Os gwelir, wrth archwilio'r claf hwn, fod ganddo broblem hirsefydlog gyda brech ecsemataidd ar ei gefn, dylid ei gynghori i weld ei feddyg teulu'n rheolaidd ar gyfer y broblem hon, nid ei atgyfeirio at ddermatolegydd ymgynghorol am ei farn.

6. Safon 6

Yn aml, mae cleifion yn cysylltu â'r ysbyty i geisio cael apwyntiadau dilynol fel claf allanol yn gynt, ac mae'r ymateb yn dibynnu ar y sefyllfa unigol. Os yw'r dyddiad arfaethedig ar gyfer apwyntiad y claf wedi mynd heibio, h.y. roedd disgwyl iddo gael

ei weld mewn tri mis ac mae tri mis wedi mynd heibio, ac nad yw'r claf wedi clywed unrhyw beth, yna dylid gofyn am apwyntiad i'r claf cyn gynted â phosibl.

Ar gyfer rhai llwybrau cleifion, mae system gytûn ar waith sy'n golygu y gall yr ysgrifenyddes sy'n derbyn yr alwad geisio cyngor gan nyrs arbenigol neu gall y claf siarad â nyrs arbenigol a fydd yn trefnu ei fod yn cael apwyntiad yn gynt os yw'n briodol yn glinigol.

Mewn achosion pan na fydd llwybr o'r fath yn bodoli, bydd yr ysgrifenyddes feddygol yn holi'r meddyg ymgynghorol cyfrifol a yw'n fodlon i'r claf gael apwyntiad yn gynt ar sail y wybodaeth a roddwyd ganddo. Os cytunir i roi apwyntiad cynt, rhoddir gwybod i'r claf am hynny. Os nad yw'n briodol yn glinigol, rhoddir gwybod i'r claf am hynny hefyd.

Os bydd y claf yn anghytuno â'r penderfyniad, byddai'n cael ei gynghori i geisio adolygiad clinigol gan ei feddyg teulu. Pe bai'r cyflwr perthnasol wedi newid, a bod y meddyg teulu o'r farn bod apwyntiad cynt yn briodol ar sail glinigol, byddai disgwyl iddo gysylltu â'r meddyg ymgynghorol drwy lythyr neu e-bost i ofyn am apwyntiad cynt.

7. Safon 7

Mae'r safon hon yn dod yn uniongyrchol o ganllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar atgyfeirio (isod). Mae'n sicrhau bod y claf yn disgwyl apwyntiad, ac os bydd cleifion yn deall pam maent yn cael eu hatgyfeirio, maent yn llai tebygol o beidio â mynd i'w hapwyntiadau. Os bydd gwybodaeth o natur sensitif na fyddai'n briodol, ym marn y sawl sy'n atgyfeirio, ei rhannu â'r claf nes bod y wybodaeth yn fwy cyflawn, gall fod yn briodol peidio â rhoi'r holl fanylion, ond byddai disgwyl i hyn fod yn ddigwyddiad anghyffredin.

8. Safon 8

Nid oedd angen rhoi bron ddim esboniad pellach o'r safon hon, os o gwbl, ond roedd angen ail-bwysleisio'r angen i adrannau ysbytai a phractisau meddygon teulu roi systemau ar waith i sicrhau eu bod yn ymdrin â negeseuon brys pan fydd meddygon teulu a meddygon ymgynghorol unigol yn absennol e.e. gwyliau blynyddol neu salwch. Gan fod mwy o ymholiadau clinigol yn cael eu hanfon drwy e-bost, mae'n hollbwysig, pan na fydd e-byst yn cael eu monitro e.e. gwyliau blynyddol, fod y meddyg yn sicrhau bod neges allan o'r swyddfa yn cael ei gosod fel bod unrhyw un sy'n e-bostio yn ymwybodol na fydd yn cael ymateb ac y bydd angen iddo ddefnyddio dull amgen os oes angen ymateb arno ar frys.

9. Safon 9

Mewn achosion pan na fydd contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) y practis meddyg teulu yn cynnwys rhagnodi na monitro meddyginiaethau penodol, y tîm sy'n rhoi'r feddyginiaeth sy'n gyfrifol am ei rhagnodi a'i monitro'n ddiogel nes y cytunir ar drefniadau rhannu'r gofal gyda'r meddyg teulu, oni bai bod amgylchiadau penodol a allai beryglu diogelwch y claf. Yna, rhaid bod cyswllt uniongyrchol rhwng y meddyg teulu a'r meddyg ymgynghorol/arbenigol yn yr ysbyty, a dim ond os yw'r

meddyg teulu yn cytuno ac yn teimlo y gall dderbyn cyfrifoldeb y bydd yn gwneud hynny.

10. Safon 10

Mae'r safon hon yn ailadrodd yr hyn sydd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Dylid rhoi tystysgrif Med3 i gleifion yn yr ysbyty sy'n cwmpasu'r cyfnod yn yr ysbyty ac unrhyw amser gwella disgwylidig cyn dychwelyd i'r gwaith. Os oes ansicrwydd, yna gellir nodi cyfnod rhesymol o amser, a dim ond pan fydd y cyfnod hwn wedi dod i ben y dylai'r claf ailymweld â'r meddyg teulu i gael ei ailasesu.

Mae'n ofynnol i feddygon roi ffurflen Med 3, lle y bo'n briodol, i gleifion y maent yn rhoi gofal clinigol iddynt. Mae'r canllawiau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei gwneud yn glir fod hyn yn berthnasol i bob meddyg gan gynnwys meddygon gofal eilaidd, canolfannau trydyddol/cenedlaethol, ysbytai cymunedol, adrannau cleifion allanol ac adrannau damweiniau ac achosion brys.

Ers cyflwyno'r ffurflen Med 3 (Nodyn Ffitrwydd) newydd ym mis Ebrill 2010, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi llunio amrywiaeth o ganllawiau i gefnogi'r broses o'i defnyddio ac mae hyn yn cynnwys canllawiau i feddygon ysbyty:

<https://www.gov.uk/government/publications/fit-note-guidance-for-hospital-doctors>

Tra bod cleifion mewnol yn aml yn cael ffurflenni Med 10, mae llawer o feddygon ysbyty nad ydynt yn ymwybodol y dylent, pan fo angen, roi ffurflenni Med 3 hefyd. Gall ffurflenni Med 3 fod yn briodol at ddibenion nawdd cymdeithasol a Thâl Salwch Statudol i gleifion nad ydynt yn gallu gweithio neu sydd o bosibl yn ffit i weithio gyda chymorth gan eu cyflogwr.

Mae'n bwysig bod meddygon ysbyty yn gallu cael gafael ar ffurflenni Med 3 i'w rhoi pan fo hynny'n briodol. Mae manylion am sut i archebu ffurflenni Med 3 ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/collections/dwp-leaflets-and-how-to-order-them#healthcare-professionals--med-3-med-10-and-matb1>

Mae peidio â rhoi ffurflenni Med 3 yn rhwystro cleifion rhag cael y gofal gorau ac yn arwain at ddyblygu a straen diangen i'r rhai sy'n gorfod gwneud apwyntiad ychwanegol i weld eu meddyg teulu er mwyn cael ffurflen. Efallai nad meddygon teulu yw'r clinigwyr mwyaf priodol i roi cyngor ar ffitrwydd i weithio mewn perthynas â rhai cyflyrau penodol. Dyletswydd y meddyg sydd â chyfrifoldeb clinigol dros y claf ar y pryd yw rhoi ffurflen Med 3.

Wrth gyhoeddi nodyn ffitrwydd, dylai'r cyngor ymwneud ag unrhyw gyfyngiadau swyddogaethol cyflwr y claf ar ei ffitrwydd i weithio e.e. stamina, symudedd, effeithiau triniaeth. Ni ddisgwylir i feddygon feddu ar wybodaeth arbenigol am weithleoedd nac iechyd galwedigaethol.

Cleifion mewnol ysbyty

Dylid parhau i roi ffurflen Med 10 i gwmpasu unrhyw gyfnod a dreulir gan glaf yn yr ysbyty. Pan gaiff ei ryddhau o'r ysbyty, dylai'r meddyg sydd â chyfrifoldeb clinigol dros y claf roi ffurflen Med 3 iddo, lle y bo'n briodol, i gwmpasu cyfnod wedi hynny. Bydd hyn yn osgoi atgyfeiriadau diangen at feddygon teulu yn unswydd er mwyn ardystio salwch.

Cleifion allanol ysbyty

Lle y bydd gofal cleifion allanol yn dilyn cyfnod o ofal mewnol/dydd, dylai'r meddyg ysbyty roi ffurflen Med 3 i'r claf pan gaiff ei ryddhau a ffurflen Med 3 arall, os oes angen, pan ddaw'r claf am adolygiad cleifion allanol.

Lle y caiff claf ei atgyfeirio i'r ysbyty am farn neu gyngor ar ei gyflwr iechyd, y meddyg teulu ddylai fod yn gyfrifol am roi'r ffurflen Med 3 o hyd.

Mae cleifion â chlefydau cronig cymhleth sy'n mynychu'r ysbyty fel cleifion allanol, yn y rhan fwyaf o achosion, hefyd yn debygol o fod yn gweld eu meddyg teulu. Yn yr achosion hyn, dylai'r meddyg teulu roi ffurflen Med 3.

11. Safon 11

Os yw claf wedi ffonio a chanslo apwyntiad fel claf allanol ymlaen llaw neu ar ddiwrnod yr apwyntiad am y tro cyntaf, dylid nodi hyn ar Myrddin ac anfon apwyntiad arall heb i'r claf orfod cael ei ailatgyfeirio. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli llwybrau cleifion yn nodi y dylai cleifion nad ydynt yn mynd i apwyntiad y cytunwyd arno fel claf allanol, heb roi rhybudd, gael eu rhyddhau.

Bydd meddygon ymgynghorol yn ystyried nifer o amgylchiadau lliniarol, a gall fod yn briodol anfon ail apwyntiad, yn enwedig os rhoddyd apwyntiad ar fyr rybudd i'r claf. Pan fydd gwasanaethau tecstio ac atgoffa wedi cael eu cyflwyno'n llawn, ni ddylai fod angen hyn. Os bydd claf yn ffonio i ganslo ar y diwrnod ddwywaith yn olynol, caiff ei ryddhau oni fydd y meddyg ymgynghorol yn anwybyddu'r penderfyniad hwn am resymau sy'n ymwneud â diogelwch y claf. Ar ôl cael ei ryddhau fel claf allanol, dylid anfon llythyr safonol at y claf a'r meddyg teulu.

12. Safon 12

Dylid cynnig copi o'u llythyrau cleifion allanol neu atgyfeirio i gleifion fel mater o drefn. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r thema o gynnwys cleifion sy'n rhan o'r Adolygiad Seneddol ac sydd eisoes yn ddull gweithredu arferol yn Lloegr.

Manteision posibl copïo llythyrau rhwng gweithwyr proffesiynol a chleifion

Mwy o ymddiriedaeth rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol: Mae bod yn fwy agored yn arwain at fwy o ymddiriedaeth rhwng gweithwyr proffesiynol a chleifion.

Cleifion mwy hyddysg: Mae cleifion a gofalwyr yn deall eu cyflwr yn well a'r ffyrdd y gallant helpu eu hunain.

Penderfyniadau gwell: Mae cleifion yn fwy hyddysg ac yn gallu gwneud penderfyniadau'n well ynghylch yr opsiynau triniaethau.

Cydymffurfiaeth well: Mae cleifion sy'n deall y rhesymau dros driniaethau neu gymryd meddyginiaeth yn fwy tebygol o ddilyn cyngor.

Cofnodion mwy cywir: Gall y claf sylwi ar gwallau a'u cywiro.

Ymgynghoriadau gwell: Gall gweithwyr proffesiynol gadarnhau bod cleifion yn deall yr hyn a ddywedwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd cleifion yn fwy parod ac yn pryderu llai.
Hybu Iechyd: Gellir defnyddio'r llythyrau i atgyfnerthu cyngor ar hunanofal a fyfyrdd o fyw.

Llythyrau cliriach rhwng gweithwyr proffesiynol: Mae llythyrau a gaiff eu hysgrifennu rhwng gweithwyr proffesiynol yn glir ac yn ddealladwy i bobl broffesiynol a phobl leyg.

(Daw o Copying letters to Patients, Good practice guidelines, Yr Adran Iechyd, Lloegr 2003)

Adran 3 – Dogfennau y cyfeiriwyd atynt

- 1) Canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
http://www.gmcuk.org/Delegation_and_referral.pdf 68369115.pdf
- 2) Canllawiau'r GIG yn Lloegr <https://www.england.nhs.uk/patientsafety/wp-content/uploads/sites/32/2016/03/discharge-standards-march-16.pdf>
- 3) Ymchwiliad Robert Powell
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/121009rpactionplancy.pdf>
- 4) Canllawiau'r BMA <https://www.bma.org.uk/advice/employment/gp-practices/service-provision/duty-of-care-to-patients-regarding-test-results>
- 5) <http://www.brotaflmc.org.uk/improvingcommunicationtheexchangeofinformationandpatientcareoct2007>
- 6) Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth – Safbwynt Cleifion
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/866/Final%20RTT%20rules%20Patient%20perspective%20only%20April%202017.pdf>

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae'r canlynol yn berthnasol, p'un a ydych yn dirprwyo neu'n atgyfeirio:

- a** Dylech esbonio i'r claf eich bod yn bwriadu trosglwyddo ei ofal yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ac esbonio pam
- b** Rhaid i chi roi'r canlynol i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dan sylw:
 - i) gwybodaeth berthnasol am gyflwr a hanes y claf;
 - ii) pwrpas trosglwyddo gofal a/neu'r ymchwiliad, y gofal neu'r driniaeth sydd eu hangen ar y claf.
- c** Dylech gadarnhau bod y claf yn deall pa wybodaeth y byddwch yn ei throsglwyddo a pham. Os yw'r claf yn gwrthwynebu datgelu gwybodaeth amdano sydd, yn eich barn chi, yn hanfodol i ddarparu gofal yn ddiogel, dylech esbonio na allwch ei atgyfeirio na threfnu iddo gael triniaeth heb ddatgelu'r wybodaeth honno hefyd.

Y GIG YN LLOEGR

2 Egwyddorion arweiniol

Mae tair egwyddor gyffredinol a phwysig yn arwain y gwaith hwn.

Yr egwyddor gyntaf yw mai'r clinigwr sy'n gofyn am y prawf sy'n gyfrifol am adolygu'r canlyniadau, gweithredu arnynt a rhoi gwybod i'r meddyg teulu a'r claf am y canlyniadau a'r camau a gymerwyd, hyd yn oed os yw'r claf wedi cael ei ryddhau.

Yr ail egwyddor yw y dylai practis meddyg teulu adolygu canlyniadau prawf y claf a, lle bo angen, dylai clinigwr cyfrifol weithredu arnynt, hyd yn oed os nad y clinigwr hwn a ofynnodd am y prawf.

Y drydedd egwyddor yw y dylid parchu ymreolaeth y claf ac ystyried gwneud addasiadau rhesymol i bobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl a, lle bo hynny'n briodol, dylid rhoi'r cyfle i deuluoedd, gofalwyr, cydgysylltwyr gofal a gweithwyr allweddol fod yn rhan o'r broses drosglwyddo a chyfrannu at bob penderfyniad ynghylch y claf wrth ei ryddhau. Dylid ystyried defnyddio gwasanaethau cyfieithu os nad yw'r claf yn siarad Saesneg.

YMCHWILIAD ROBERT POWELL

- i. Mae angen i feddygon teulu gael digon o wybodaeth yn ysgrifenedig am y ffeithiau perthnasol a'r ffordd y bwriedir ymchwilio ymhellach pan gaiff claf ei ryddhau o'r ysbyty.
- ii. Mae angen cyfeirio gohebiaeth o'r fath a nodir uchod at y meddyg teulu a atgyfeiriodd y claf. Yn ôl y dystiolaeth bresennol, nid yw hyn yn digwydd bob tro.
- iii. Dylai'r meddyg teulu a atgyfeiriodd y claf ystyried unrhyw ohebiaeth o'r ysbyty. Os na chaiff ei chyfeirio at y meddyg hwnnw, ond yn hytrach at feddyg arall yn y practis, dylai gweinyddwr y practis sicrhau ei bod yn cael ei dwyn i sylw'r meddyg a atgyfeiriodd y claf neu feddyg dynodedig os yw'r meddyg hwnnw i ffwrdd o'r practis; ar wyliau, er enghraifft.

BMA

Dyletswydd gofal o ran cyfleu canlyniadau ymchwiliad Rydym yn ymwybodol, mewn rhai meysydd, fod rhai meddygon ysbyty wedi bod yn gofyn i feddygon teulu canfod canlyniadau'r prawf y gofynnodd yr ysbyty amdano.

Mae Pwyllgor yr Ymarferwyr Cyffredinol a Phwyllgor Meddygon Ymgynghorol y BMA yn cytuno y gallai'r ymarfer hwn fod yn anniogel, ac mai cyfrifoldeb yr unigolyn sy'n gofyn am y prawf yw sicrhau y gweithredir ar y canlyniadau. Ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i rywun arall, oni bai ei fod wedi cytuno i'w dderbyn ymlaen llaw.

Rhaid i'r tîm yn yr ysbyty a'r meddyg teulu benderfynu ar y cyd i drosglwyddo cyfrifoldeb. Os nad yw'r meddyg teulu wedi derbyn y rôl honno, rhaid i'r unigolyn sy'n gofyn am y prawf gadw'r cyfrifoldeb.

Mae'r cyngor hwn yn unol â chanllawiau'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion a'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Cyswllt

Anfonwch unrhyw ymholiadau i Populationhealthcare@gov.wales